# Pecyn Cymorth y Gronfa Arloesi Datblygu Dysgu (LDIF)






Fersiwn Darllen Hawdd



Mae'r Gronfa Arloesi yn ffordd newydd o ariannu syniadau da.



Mae'r llyfr yma yn ganllaw i'ch helpu chi i gefnogi grwpiau i feddwl am syniadau newydd sy'n gwneud bywydau pobl yn well.



Rydyn ni'n galw'r llyfr yma yn becyn cymorth.
Mae'n llawn syniadau a ffyrdd o helpu i wneud i'r gronfa newydd weithio i chi.

Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth?



- Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol
- Awdurdodau Lleol
- Gwirfoddolwyr
- Gofalwyr

# Cefndir



Cafodd LDIF ei dechrau gan y Bartneriaeth Gwella Bywydau Rhanbarthol (RILP)






Mae RILP yn bartneriaeth ar gyfer:

- awdurdodau lleol
- y bwrdd iechyd
- a phobl sydd ag anableddau dysgu ac / neu awtistiaeth.



Mae'n cynnwys Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gâr.

Cafodd y Gronfa Arloesi ei harwain gan y Tîm Breuddwyd a chafodd ei chefnogi gan Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a Pobl yn Gyntaf Sir Gâr.



Gwnaeth y Tîm Breuddwyd a RILP sicrhau bod y Gronfa Arloesi yn cael ei chynhyrchu.



Yn 2019 rhoddodd RILP arian ar gyfer Pitch your Project. Roedd pobl ag anableddau dysgu yn cyflwyno syniadau newydd a oedd yn addas iddyn nhw.



Syniadau fel come dine with me, cyfle i goginio a chymdeithasu gyda'i gilydd.



Gwnaeth panel o bobl sydd ag anableddau dysgu y penderfyniadau ariannu.



Dechreuodd y Gronfa Arloesi o'r holl brofiad a gafodd RILP o hyn.

# Pwy yw Pwy

# Strwythur Gorllewin Cymru

**Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (WWCP)**

Mae'n gweithio ar draws Gorllewin Cymru i sicrhau bod yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yn cydweithio ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae WWCP yn cefnogi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014

Daeth yr arian ar gyfer WWCP a LDIF o Gronfa Gofal Integredig (ICF) Llywodraeth Cymru

Cafodd LDIF ei rheoli drwy RILP sy'n cael ei gyd-gadeirio gan bobl o'r Tîm Breuddwyd.

**Pobl yn Gyntaf Sir Benfro (PPF)**

Elusen sy'n cael ei rhedeg gan ac ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu a/neu bobl sy'n niwro-ymwahanol

www.pembrokeshirepeople1st.org.uk

**Pobl yn Gyntaf Sir Gâr (CPF)**

Asiantaeth eiriolaeth a hyfforddiant â ffocws sy'n cael ei harwain gan aelodau ac sy'n canolbwyntio arnyn nhw

Mae'r holl aelodau yn oedolion sydd ag anabledd neu anhawster dysgu a/neu sy'n niwro-ymwahanol.

www.carmarthenshirepeoplefirst.co.uk

**Ein Llais Ein Dewis (OVOC)**

Grŵp hunan-eiriolaeth yng Ngheredigion ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu ac sy'n cael ei arwain gan aelodau

www.facebook.com/Ourvoiceourchoiceceredigion

**Y Tîm Breuddwyd**

Grŵp o bobl sydd ag anableddau dysgu a/neu sy'n niwro-ymwahanol o Sir Benfro, Sir Gâr a Cheredigion

Maen nhw'n gweithio'n galed i sicrhau bod gan bobl lais ac maen nhw'n cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd penderfynu.



Mae'r Tîm Breuddwyd yn rhoi adborth i RILP.

# Siarter Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru




'Mae pobl sydd ag anableddau dysgu eisiau'r un pethau â phawb arall'




Mae'r Tîm Breuddwyd yn defnyddio'r Siarter ym mhob peth sy'n digwydd ar gyfer LDIF



Mae'r Siarter yn edrych ar gymorth, iechyd a pherthnasoedd

Mae'n ymwneud â chael bywyd cymdeithasol, teimlo'n bodlon a chael eich trin gydag urddas a pharch



**Awgrym:** I wneud y gorau o unrhyw siarter anabledd dysgu neu debyg yn eich ardal chi, defnyddiwch hi ac adolygwch hi'n aml!

# Ffeithiau a Ffigurau LDIF



Cafodd LDIF ei chyd-gynhyrchu. Roedden nhw'n gweithio gyda'r partneriaid a'r bobl maen nhw'n eu cefnogi.



Roedd yn rhoi grantiau er mwyn i bobl sydd ag anableddau dysgu a/neu niwro-ymwahanol ddyfeisio gweithgareddau newydd.




Rhoddwyd cyfanswm o £176,529.



Anfonodd y bobl a wnaeth gais ffilm i mewn sy'n esbonio eu prosiect yn Rownd 1 a siaradon nhw amdano mewn person ar gyfer Rownd 2



Roedd yn annog prosiectau newydd a allai gael eu profi o fewn cyfnod amser yr arian grant



Gallai prosiectau a aeth yn dda wneud cais am arian Rownd 2 fel y gallent ddatblygu dros y flwyddyn nesaf



Gwnaeth LDIF rannu ffordd 'gallu gwneud' o feddwl, ac roedd hyn yn helpu pobl gyda sgiliau a hyder wrth iddyn nhw weithio gyda'i gilydd



Roedd pawb yn ymwneud â:

- Datblygu a gwneud ceisiadau
- Cyflwyno i'r panel
- Cyflwyno'r prosiectau

Roedd y panel a benderfynodd pwy gafodd y grantiau yn cynnwys aelodau o'r Tîm Breuddwyd

Cafodd cyllid a gweinyddu ei drefnu gan PAVS



# Dysgu:



**Yr Ariannwr -** Rhaid ei bod yn credu yn y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud a gwneud ymrwymiad i roi arian



**Yr Ymgeisydd -** Pobl ag anableddau dysgu yn cyflwyno pethau yn eu geiriau eu hunain

**Yr Aseswr -** Panel o aelodau wedi ei hyfforddi i asesu ceisiadau (fel Y Tîm Breuddwyd)

# Dylunio'r Pecyn Cais LDIF



Roedd y partneriaid wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd o'r blaen felly roedd hyn yn hawdd i'w adeiladu arno.




Roedd angen amrywiaeth o sgiliau ar LDIF fel darllen, cymryd gwybodaeth i mewn a deall arian.




Gwnaethon nhw weithio gyda PAVS i wneud y ffurflen gais, a gafodd ei gwneud fel un darllen hawdd.



Gwnaethon ni gynllunio pa mor hir y dylai pob cam ei gymryd. Gwnaethon ni sicrhau bod pawb yn cael digon o amser.



Roedd rhai pethau'n costio mwy ac yn cymryd mwy o amser ond roedd e'n brofiad gwerthfawr i bawb.



## Dysgu:





- Cael asiantaeth gefnogi trydydd sector i gymryd rhan
- Gadael amser i gyfieithu deunyddiau darllen hawdd
- Gadael amser i bawb ddeall er mwyn cael ceisiadau gwell
- Gwneud yn siŵr bod digon o amser cyn y dyddiadau cau
- Gwneud yn siŵr bod gennych chi ganiatâd pobl cyn ffilmio
- Gwneud yn siŵr bod ffordd syml o uwchlwytho'r ffilmiau

# Lansio'r Pecyn Cais



Cafodd LDIF ei lansio gan y Tîm Breuddwyd gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau eraill i gyrraedd cannoedd o grwpiau ar draws y 3 sir

# Y Broses Ymgeisio




Roedd gan grwpiau 1 mis i anfon eu ceisiadau i mewn

Bydden nhw wedi cael mwy o amser ond roedd amser cyfyngedig oherwydd y grant




Roedd ceisiadau mewn fformat darllen hawdd felly roedd yn hygyrchu ac roedden ni'n gallu rhoi'r un wybodaeth i bawb

Cadwodd PAVS gofnod o sefydliadau a ofynnodd am becynnau cais

Rhoddodd PAVS, CAVS a CAVO gyngor i bobl sy'n ymgeisio



Cynhaliwyd sesiwn Holi ac Ateb ar-lein gyda'r bobl a oedd yn gyfrifol am y grant

# Dewis y Panel Asesu LDIF

Roedd y panel yn cynnwys aelodau o'r Tîm Breuddwyd, 2 o bob sir.



Daethon nhw i gyfarfodydd, cawson nhw hyfforddiant a darllenon nhw drwy geisiadau



Cafodd aelodau'r panel eu talu, gan gynyddu'r teimlad o gyfrifoldeb




Rhoddodd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a PAVS hyfforddiant ar gyfrinachedd a pharchu barn ei gilydd.



Cafodd yr hyfforddiant a chymorth eu rhoi ar gyfrifiaduron.



**'Mae'n bwysig ein bod ni'n gallu siarad dros ein hunain ac yn cael amser i feddwl ac ateb'**

# Asesu Ceisiadau

PAVS oedd yn gofalu am y ceisiadau



Pan anfonodd sefydliad gais i mewn, anfonodd PAVS lythyr.
Roedd y llythyr yn dweud wrthyn nhw beth oedd yn mynd i ddigwydd nesaf.



Roedd gwneud yn siŵr fod pawb yn gwybod beth oedd yn digwydd yn bwysig.



Siaradodd PAVS â phawb oedd yn gofyn cwestiwn. Gwnaethon nhw gynnig cefnogaeth a help i grwpiau a wnaeth gais.




Ar ôl y dyddiad cau gwiriodd PAVS fod y ceisiadau'n cwrdd â'r rheolau:

- Cael cyfrif banc
- Gyda chyfansoddiad - mae hyn yn golygu bod y sefydliad wedi'i sefydlu'n iawn.



Yn y flwyddyn gyntaf roedd angen i grwpiau anfon ffilm fer am y prosiect.



Ym mlwyddyn 2 roedd cyflwyniadau dros Zoom.



**Awgrym: Mae angen i chi sicrhau bod y mannau cyfarfod yn dda i bawb. Meddyliwch am bethau fel goleuadau cryf a mynediad.**

# Panel llunio'r rhestr fer Cam 1



Fe wnaethon ni gerdyn sgorio. Cafodd hyn ei gyd-gynhyrchu i wneud yn siŵr ei fod yn hygyrch.



Cafodd y ceisiadau eu hanfon at aelodau'r panel i'w sgorio.



**Awgrym: gwnewch yn siŵr y gall pawb lenwi'r daflen sgorio'n hawdd. gwnewch yn siŵr ei fod yn ddigon mawr, ystyriwch ddefnyddio symbolau.**



Cafodd aelodau'r panel gyfarfod ar-lein i lunio'r rhestr fer.



Cymerodd y cyfarfod 3 awr. Derbynion ni 12 cais. Cawson ni seibiannau cysur.



Roedd hi'n bwysig i gymryd amser, roedd hyn yn helpu:



- Pobl i wybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau
- Gwneud pawb yn gyfforddus
- Cynllunio ar gyfer y prif gyfarfod




Roedd aelodau'r panel yn hyderus yn eu rolau, roedden nhw'n:




- Gofyn am fwy o wybodaeth
- Gallu gweld drwy unrhyw jargon
- Gallu gweld pan oedd cais wedi cael ei ysgrifennu am bobl sydd ag anabledd dysgu, nid ganddyn nhw.



Roedd yn rhaid i rai grwpiau anfon mwy o wybodaeth.
Fe ofynnon ni i rai grwpiau siarad â'r panel.
Roedd angen i bob grŵp wneud ffilm.

# Cyfarfod Panel Cam 2



Cyn y cyfarfodydd panel siaradodd PPF gyda'r aelodau i wneud yn siŵr eu bod nhw'n iawn gyda phopeth.






Mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod chi'n gweithio gydag unigolion yn y ffordd maen nhw eisiau. Mae angen i chi feddwl am y ffordd orau o siarad â nhw, gallai hyn fod:

- Dros y ffôn
- Ar e-bost
- Drwy neges destun

Gall hyn gymryd mwy o amser. Mae angen i chi gynllunio ar gyfer hyn.



Roedd pawb yn gyffrous am y cyfarfod panel ar-lein.



Gwnaethon ni sicrhau bod pawb yn barod ar gyfer y cyfarfod.



Roedd un aelod o'r panel nad oedd yn rhan o'r panel rhestr fer. Golygodd hyn na allai hi wneud y panel llawn gan na fyddai'n deg.



Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan aelod o'r Tîm Breuddwyd



Fe wnaethon ni atgoffa pawb bod yn rhaid iddyn nhw ddweud os ydyn nhw'n cymryd rhan mewn unrhyw un o'r ceisiadau.




Asesodd aelodau'r panel y ceisiadau. Roedd gan rai ffilm a gwybodaeth ychwanegol.




Cafodd pob cais ei farcio ar gyfer:



- Ffordd newydd o gefnogi pobl



- Wedi'i gyd-gynhyrchu gan bobl sydd ag anabledd dysgu neu awtistiaeth



- Dangos manteision go iawn i'r gymuned



- Yn hapus i rannu beth maen nhw wedi'i wneud




- Cynnig gwerth da am arian

# Yr hyn a welon ni yn y cyfarfod



Gwnaeth rhai grwpiau ffilmiau da. Roedd hyn yn rhoi hyder i bobl.



Roedd gwneud ffilmiau yn cymryd amser ond roedd yn werth chweil. Roedd ffilmiau'n helpu i ddangos syniadau a pha mor bwysig yr oeddent.



Roedd ymgeisio am grant i'w weld yn haws ar gyfer grwpiau mwy anffurfiol a oedd yn cael eu harwain yn fwy gan aelodau. Roedd yr aelodau'n well wrth godi eu llais.




Roedd ceisiadau gan grwpiau yn fwy proffesiynol. Roedd aelodau'r panel yn dda wrth weithio allan beth oedd jargon.



Cefnogodd PPF a PAVS aelodau'r Tîm Breuddwyd i feddwl am arian. Gwnaethon nhw helpu aelodau'r panel i ofyn sut fyddai'r arian yn cael ei wario.



Roedd y cyfarfod yn broffesiynol ac yn gefnogol.




Cafodd y cyfarfod ei atgoffa am y gwahaniaeth rhwng rhywbeth sy'n braf ei gael a rhywbeth y mae ei angen. Roedd hyn oherwydd nad oedd cais yn cwrdd â'r rheolau.



Cafodd aelod o'r panel amser ychwanegol oherwydd iddi deimlo'n ddryslyd wrth wneud penderfyniadau.




Roedd aelod o'r panel yn meddwl am y dyfodol ac yn gofyn beth oedd y grŵp yn ei gynllunio ar ôl yr arian.





Cymerodd amser i'r panel ddeall pob prosiect. Gwnaethon nhw ofyn i un grŵp am fwy o wybodaeth darllen hawdd. Gwnaethon nhw ofyn am fwy o wybodaeth ac yna pleidleisio i wneud penderfyniad.



Roedd angen i aelodau'r panel allu dweud wrth grwpiau pam eu bod wedi gwneud penderfyniad. Roedd angen iddyn nhw ddangos eu bod yn deall ac wedi gwneud penderfyniad clir.




Roedd gwneud penderfyniadau fel hyn yn dangos pa mor bwysig yr oedd i gadw at ein rheolau ac i bobl ag anableddau dysgu fod yn rhan o'r grwpiau a'r ceisiadau.



# Beth ddywedodd y tîm am fod ar y panel

'Roedd rhai yn glir iawn ond roedd eraill yn or-gymhleth ac roedd yn rhaid i ni ofyn iddyn nhw wneud fideo newydd cyn i ni wneud penderfyniad terfynol.'

'doedd rhai prosiectau ddim i'w gweld yn cofio bod gan y panel Anableddau Dysgu oherwydd eu bod yn defnyddio geiriau mawr ac esboniadau hirwyntog.'

'Mae gweld fideo yn llawer gwell cynrychiolaeth o'r person neu'r sefydliad yn siarad na darn o bapur!'

'Roedden ni'n deg yn ein barn ac fe wnaethon ni gefnogi'r rhan fwyaf o brosiectau a chynnig dewisiadau eraill i rai roedden ni'n anghytuno â nhw... gwnaethon ni feddwl yn galed iawn a thrafod pob dewis yn drylwyr.'



# Bydd rhai sylwadau yn helpu aelodau panel yn y dyfodol

"Dwi'n meddwl bod angen i ni fod yn fwy llym ond yn deg, ac mae angen i bawb siarad, roedd nifer dda o aelodau'r bwrdd yn ddistaw".

"roedd dau aelod o'r panel fel petaent yn cyflwyno'r un farn i'w gilydd drwyddi draw."

Dangosodd rhai ddealltwriaeth dda o gyd-destun y gronfa:

"Ddes i'n aelod o banel i helpu prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan bobl ag Anableddau Dysgu i ddechrau arni a gweld beth y bydden nhw'n dyfeisio. Roeddwn i hefyd eisiau gweld os oedd pob prosiect yn newydd ac yn gwneud gwahaniaeth o fewn y gymuned."

"Roedd y system sgorio yn dda a gwnaeth y panel feddwl am bob prosiect ar wahân a sicrhau bod pob prosiect yn ffitio i adran o'r Siarter".

"Dydw i erioed wedi teimlo i mi gael fy nerbyn gymaint ac mae bod yn aelod o'r panel yn fy helpu i ddeall fy mhwysigrwydd"



# Dysgu:






- osgowch jargon defnyddiwch Easy Read
- rili clywed yn ogystal â gwrando
- amynedd a chwrteisi: gwneud i bobl deimlo'n esmwyth
- cadw meddwl agored: gwerthfawrogi sgiliau e.e. technegol
- osgoi tuedd: sut mae 'pobl ag anableddau' yn cael eu trin

**Dilynwch y Siarter Anableddau Dysgu!**

# Monitro a gwerthuso



Mae'r adran yma yn dweud wrthych chi sut y gwnaethon ni gefnogi a gwirio'r grwpiau yr oeddem wedi'u hariannu.



Cafodd cymorth ei gynnig i brosiectau pan oedden nhw'n rhedeg.




Fe anfonon ni neges iddyn nhw yn gofyn sut roedden nhw'n gwneud a dweud wrthyn nhw pa gymorth y gallen ni ei gynnig.



Gofynnwyd i grwpiau hyrwyddo'r gwaith newydd a dweud wrth bobl eu bod yn cael eu hariannu gan LDIF.



Helpodd LDIF fwy o bobl i gael gwybod am yr holl brosiectau.




Daeth prosiectau o hyd i ffyrdd o gysylltu â'i gilydd.



Cymerodd aelodau'r panel ran mewn Podlediadau am LIDF a'r prosiectau.

Mae WWLDshow yn cael ei gefnogi gan Barod CIC gydag arian gan LDIF. Mae mwy o wybodaeth yma: [www.wwldhsow.wales](www.wwldhsow.wales)




Ar ddiwedd y rownd ariannu ysgrifennodd pob un o'r grwpiau adroddiad am yr hyn roedden nhw wedi'i wneud a pha arian roedden nhw wedi'i wario.

Edrychodd y Tîm Breuddwyd ar yr adroddiadau.



## Beth ddywedodd grwpiau am y gronfa

*'Rydyn ni'n grŵp sy'n cael ei arwain gan aelodau ac yn gallu cynnwys ein haelodau yn y broses ymgeisio sy'n golygu y gallen ni ddarparu rhai sgiliau bywyd roedden nhw'n dymuno eu cael iddyn nhw.'*

*'Roedd yn rhoi dewis i bobl dros yr hyn roedden nhw eisiau ei wneud, pwy i wahodd. Helpodd i ryngweithio ag aelodau'r cyhoedd ac i helpu pobl. Rhoddodd gyfleoedd i gael cymorth gan gymheiriaid.'*

*'Roedd ein cyfranogwyr yn gallu rhoi cynnig ar bethau newydd fel sgiliau syrcas, creu gwisgoedd, dawnsio a cholur... i ddod at ein gilydd i wneud ffrindiau newydd a gweithio tuag at berfformiad mawr gyda'n gilydd.'*

*'roedd eu llawenydd o allu perfformio yn syml yn amhrisiadwy. Roedd rhieni a chefnogwyr yn emosiynol iawn gyda chymaint roedd y prosiect yn ei olygu iddyn nhw a sut y mae wedi codi eu hyder.'*

*'Gwnaethon ni a'r bobl ag Anawsterau Dysgu fwynhau creu ffilm. Cafodd ei defnyddio hefyd ar y cyfryngau*

*cymdeithasol a gafodd ymateb gwych a denu pobl eraill at ein gwaith.'*

*'Mae ein prosiect AD yn rhedeg ac mae pawb yn dwlu arno!  Mae'n un o'r prosiectau mwyaf gwerth chweil rydw i wedi bod yn ymwneud â nhw yn fy amser gyda'r grŵp i fod yn onest. Mor arloesol a grymusol i bawb sy'n cymryd rhan!'*

*'Dechreuon ni feddwl ein bod ni eisiau i oedolion gydag AD gymryd rhan mewn gweithgareddau yn gyfartal gydag aelodau eraill o'r gymuned, a gwnaethon ni ddarganfod nid yn unig yr oedden nhw'n gwneud hynny ond roedden nhw'n rhedeg y prosiect, yn gofalu am yr holl ymwelwyr, ac yn sicrhau bod yr ymwelwyr yn cymryd rhan ar sail gyfartal.'*

*'Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i grwpiau cymunedol sydd heb staff cyflogedig na swyddfeydd gyda mynediad i gyfleusterau digidol.  Pan fydd ymgeisydd yn grŵp cymunedol sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr gydag anableddau dysgu, dylid darparu mwy o gefnogaeth i sicrhau bod y grwpiau hyn yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y broses gyfan.  Efallai bod gan y grwpiau hyn syniadau gwych ond mae diffyg cefnogaeth i roi pethau ar waith.'*



# Dysgu:








- Roedd gan grwpiau a wnaeth geisiadau sgiliau gwahanol iawn. Rydyn ni'n meddwl bod angen i ni wneud mwy o gefnogaeth, bydd angen mwy o arian i wneud hyn.
- Dylai mwy o amser a chefnogaeth fynd i helpu grwpiau sy'n gweithio gyda'u haelodau.
- Mae angen i grwpiau sydd â llawer o staff ac arian roi mwy o amser i siarad i'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaeth.
- Mae angen rhannu syniadau da a phethau sy'n gweithio'n dda gyda phawb. Bydd hyn yn dangos sut mae gweithio gyda'n gilydd yn well.

# Adroddiad terfynol Y Tîm Breuddwyd




Ym mis Mai 2022 edrychodd Y Tîm Breuddwyd ar yr adroddiadau rownd 2.

Cawsant eu cefnogi gan:

- Bobl yn Gyntaf Sir Benfro
- PAVS



Ysgrifennodd Y Tîm Breuddwyd adroddiad ar gyfer RILP.

**Rhai o'r pethau o adroddiad Y Tîm Breuddwyd:**



"Hoffwn i weld [enghraifft] o'r arolygon roedden nhw'n eu defnyddio gydag aelodau"



"Fe wnaethon nhw dda iawn am yr arian"



"Hoffwn i weld stori gan rywun ag anableddau a beth oedd eu profiad nhw, a'r hyn roedden nhw wedi'i ennill."



"Mae angen i chi ofyn i ni cyn i chi newid sut rydych chi'n gwario arian."



“Roedd hyfforddiant yn y cais, a doedd dim sôn amdano yn y monitro. A wnaeth e ddigwydd?”

**Prosiect cabaret Re Arts Care:**

“Mae pobl ag anableddau eisiau gwneud yr un pethau â phawb arall.”

“Fe roddodd brofiad gwych iawn i'r rhai a wnaeth gymryd rhan.”

“Mae'r gymuned gyfan yn gallu gweld beth mae pobl ag anableddau dysgu yn gallu ei wneud.”

“Mae'n dangos bod yna ffyrdd eraill o wneud pethau.”



“Mae'n rhoi mwy o sgiliau i bobl, yn enwedig cyfathrebu - mynd â nhw allan o'u parth cysur ond i ofod diogel”

“Mae'n dangos i bobl 'y tu allan i'n swigen ni' beth all pobl ag anableddau dysgu ei wneud.”



**Prosiect ffilm WOW**

"Mae'n wych gweld pobl yn cael eu talu am eu gwaith ar hwn."

"Gwella a meithrin sgiliau o ddifri."

"Mae'n dangos gallu pobl i wneud stwff."

PARC MAENOR
SCOLTON
MANOR PARK

**Prosiect Mynediad Scolton**

Dywedodd aelod o'r panel a oedd wedi ymweld â Scolton – parc hamdden ac ardal arddangos awdurdod lleol - yn ddiweddar: "Roeddwn i'n teimlo i mi gael fy nghroesawu yno."

"Mae'n dangos bod pobl ag anableddau dysgu yn gallu rhedeg pethau"

"Mae'n gwneud i bobl deimlo eu bod yn rhan o dîm."